Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Teithlen y Gogledd-ddwyrain: cyfoeth Gogledd-ddwyrain Cymru

Mae gan y Gogledd-ddwyrain doreth o henebion mawreddog ichi eu crwydro, bob un o fewn siwrnai fer i'w gilydd.

Ar yr arfordir yn ymyl y Rhyl fe welwch chi gynllun cyfrwys **Castell Rhuddlan** oedd ymhlith y cryfaf o gestyll Edward I. Siwrnai fer o 20 munud mewn car, mae **Castell a Muriau Tref Dinbych** yn sefyll ar frigiad craig amlwg uwchben Dyffryn Clwyd. Ewch ymhellach i'r de a buan y cyrhaeddwch chi **Gapel y Rug a Hen Eglwys Plwyf Llangar,** ac ychydig i'r dwyrain fe ddewch chi o hyd i ogoniant **Abaty Glyn-y-groes**.

1



Castell Rhuddlan

Rhuddlan, sy'n gwarchod hen ryd dros afon Clwyd, oedd y cryfaf o gestyll Edward I yn y Gogledd-ddwyrain. Mae wedi'i gysylltu â'r môr gan sianel ddofn bron tair milltir o hyd, ac mae'n dal yn dyst i athrylith arloesol y pensaer. Am ganrifoedd, bu Rhuddlan yn lleoliad strategol a welodd lawer o frwydro gwaedlyd. Llwyddodd Edward i atal yr ymosodwyr yn ddigon hir i adeiladu castell cymesur cadarn gan ddefnyddio'r dechnoleg 'muriau o fewn muriau' ddiweddaraf. Chwaraeodd y castell ran allweddol hefyd yn hanes Cymru: yma y cafodd system newydd o lywodraeth Seisnig ei sefydlu dros lawer o Gymru gan Statud Rhuddlan (1284) - setliad a barhaodd tan y Ddeddf Uno yn 1536. Ar ôl Rhyfel Cartref Lloegr bernid bod y castell yn amhosibl ei gynnal, ac arweiniodd hyn at ei gyflwr presennol.

2

Castell a Muriau Tref Dinbych

Mae **Castell a Muriau Tref Dinbych** yn sefyll ar frigiad craig amlwg uwchben Dyffryn Clwyd, a'r brif nodwedd yw'r porthdy mawr a'i dri thŵr sy'n dyddio yn ôl i'r 13eg ganrif. Gan fod yno fwy na hanner milltir o furiau tref hefyd, mae Castell Dinbych yn gaer glasurol yn null Edward. Rhoddwyd y cyfrifoldeb o reoli'r ardal ac adeiladu'r castell newydd i Henry de Lacy, un o gadlywyddion ffyddlon y brenin. Cafodd y castell ei gipio ym 1294 tra oedd yn cael ei adeiladu yn sgil gwrthryfel y Cymry o dan arweiniad Madog ap Llywelyn, ond nid oedd yn hir cyn i Edward ailafael arno a pharhau â'r rhaglen adeiladu. Gallwch weld dau gyfnod y gwaith adeiladu eich hun. Nodir y gwaith a wnaethpwyd ar ôl y gwrthryfel gan gerrig o liw gwahanol, llenfuriau tewach a thyrau onglog fel y rhai a geir yng Nghaernarfon. Peidiwch ag anghofio chwaith am Eglwys Leicester, Tŷ'r Brodyr a Phorth y Bwrdeisiaid.

3

Capel y Rug

4

Hen Eglwys Plwyf Llangar

Mae **Capel y Rug** yn sefyll yng nghanol coed deniadol, ond nid yw golwg allanol y capel yn rhoi unrhyw awgrym o'r rhyfeddodau hynod addurniadol a lliwgar y tu mewn. Camwch i mewn i'r adeilad o'r 17eg ganrif a chewch eich synnu gan y gwaith addurniadol. Ryw filltir i ffwrdd, mae **Hen Eglwys Plwyf Llangar** ychydig ganrifoedd yn hŷn ac mae ei dodrefn hyfryd o ddechrau'r cyfnod Sioraidd a chyfres bwysig o furluniau wedi'u cadw.

5



Abaty Glyn-y-groes

Mae ymweliad â'g **Abaty Glyn-y-groes** yn dwyn i gof fywydau'r mynachod Sistersaidd. Dyma'r fynachlog ganoloesol orau sydd wedi goroesi yn y Gogledd, ac mae ganddi'r unig bwll pysgod sydd wedi goroesi mewn mynachlog: mae'n rhaid bod y llecyn diarffordd, hudolus wedi dod â gwên hyd yn oed i wyneb y mynachod mwyaf duwiol. Mae hanes y safle difyr yn dod yn fyw yn y ganolfan ddehongli yn y tŷ haf, sy'n cynnwys taith animeiddiedig o amgylch yr abaty fel yr oedd yn y 15fed ganrif.

I wybod am y storïau a'r bobl y tu ôl i'n 128 o safleoedd hanesyddol, ewch i cadw.cymru.gov.uk.
Hoffwch Cadw ar Facebook a dilynwch @cadwcymru ar Twitter i gael y newyddion diweddaraf.

Rhyw 20 munud yw amser y siwrnai o Ruddlan i Ddinbych, 35 munud o Ddinbych i'r Rug a Llangar ac 20 munud i Abaty Glyn-y-groes.